# PWYLLGOR COFRESTRU A THRWYDDEDU

**(drwy Teams)**

**Aelodau a oedd yn bresennol**: **Dydd Llun, 24 Mai 2021**

**Cadeirydd:** **Councillor S.Paddison**

**Cynghorwyr:** D.M.Peters, M.Protheroe, N.J.E.Davies, R.Mizen, C.J.Jones a/ac J.Jones

**Swyddogion a oedd yn bresennol:** N.Chapple, G.White a/ac N.Jones

---

1. **Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2020, 25 Awst 2020, 21 Medi 2020, 12 Tachwedd 2020 a 7 Rhagfyr 2020.

2. **Diwygiadau i'r Polisi Tacsis**

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar ddwy ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a oedd yn effeithio ar Drwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Croesawodd yr Aelodau'r newidiadau, gan ddweud y dylid edrych ar y dolenni. Dywedodd swyddogion y byddai'r adroddiad yn cael ei ddwyn yn ôl i'r pwyllgor ac y byddai'n destun ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD:** Mai eitem er gwybodaeth oedd honno

3. **Mynediad i gyfarfodydd**

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 12 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

4. **Trwyddedu Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - Achos 1**

Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd a gofynnwyd iddynt ystyried a oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i feddu ar Drwydded Gyrrwr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat.

**PENDERFYNWYD:** . **Cymeradwyo** cais yr ymgeisydd am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

5. **Trwyddedu Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - Achos 2**

Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd. Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar atal trwyddedu Gyrrwr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat.

**Penderfynwyd:** Y bydd yr aelodau'n nodi'r adroddiad.